| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **16 RHAGFYR, 2010** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu seddau ar y Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd ar sail cydbwysedd gwleidyddol.** |
| **AWDUR** | **Dilys Phillips**<br>**Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd John R. Jones** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2010 cyflwynwyd adroddiad ar ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn.

1.2 Penderfynwyd ffurfio Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda 14 aelod, saith aelod o Gyngor Gwynedd a saith aelod o Gyngor Ynys Môn ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

## 2. DYRANNU SEDDAU AR Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma’r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â’r nifer o’r holl seddau sydd gan aelodau’r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o’r seddau ar y pwyllgor â’r nifer o seddau sydd gan aelodau’r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Mae dyraniad y saith sedd sydd gan Gyngor Gwynedd ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn unol â’r rheolau uchod, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 3 |
| Annibynnol | 2 |
| Llais Gwynedd | 1 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 1 |

| | |
|---|---|
| Llafur | 0 |

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir I'r Cyngor gadarnhau'r dyraniad seddau ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel a nodwyd ym mharagraff 2.3